

Taflen Ffeithiau Ailgylchu ar gyfer Athrawon

Gallai'r ffeithiau a'r ystadegau yn y daflen gynorthwyol hon fod yn ddefnyddiol wrth i chi gyflwyno gwersi am ailgylchu a chynaliadwyedd. Mae'r holl ffeithiau wedi cael eu gwirio a'u cadarnhau gan WRAP: www.wrap.org.uk. Ailgylchu Nawr yw enw ymgyrch cyhoeddus WRAP ac mae wedi ymuno â Wastebuster i gyflwyno'r gyfres hon o adnoddau newydd ar eich cyfer. Mae yna gyfoeth o wybodaeth ynglŷn ag ailgylchu ar ein gwefan: www.ailgylchudrosymru.org.uk.

Trosolwg o ailgylchu

- Dim ond 44.3 y cant o wastraff o'r cartref a ailgylchwyd yn 2015/16 (DEFRA 2016)
- Mae tua 1.8 miliwn tonnell o wastraff o'r cartref yn cyrraedd safleoedd tirlenwi bob blwyddyn
- Mae gwastraff bwyd yn broblem fawr. Yn y DU, rydym yn taflu 7.3 tonnell o fwyd a diod o'n cartrefi bob blwyddyn, ac mae'r mwyafrif ohono'n fwyadwy. Mae'n costio £12.5 biliwn y flwyddyn i ni ac mae'n ddrwg i'r amgylchedd hefyd. (Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff 2017)
- 'Mewn senario 'busnes fel arfer', disgwylir i'r cefnfor gynnwys un dunnell o blastig am bob tonnell o bysgod erbyn 2025, ac erbyn 2050, bydd mwy o blastig nag o bysgod [yn ôl pwysau]'. Sefydliad Ellen MacArthur, 2016

Mae cynghorau'n defnyddio gwahanol ddulliau o gasglu ailgylchu gan breswylwyr. Mae yna gynlluniau didoli ar y stepen drws, lle mae ailgylchu'n cael eu didoli yn ôl deunydd ar y lori ar y stryd; a chasgliadau cymysg lle caiff eich holl ailgylchu ei roi yn y lori gyda'i gilydd a'i gludo i Gyfleuster Adfer Deunyddiau (CAD) i'w ddidoli. Mae awdurdodau lleol hefyd yn rhedeg Canolfannau Ailgylchu Gwastraff o'r Cartref a gall preswylwyr fynd â'u hailgylchu yno os nad oes modd ei gasglu o'r stepen drws.

Yn y CAD, caiff yr holl ailgylchu cymysg ei ddidoli a'i wahanu yn ôl y math o ddeunydd gyda llaw neu beiriant (neu'r ddau) cyn cael ei anfon at gynhyrchwyr sy'n ei droi yn gynhyrchion newydd. Mae'r deunyddiau sy'n cael eu derbyn i CADau yn amrywio ledled y wlad.

Mae deunyddiau sy'n cael eu hailgylchu yn troi'n nwyddau gwerthfawr yn y farchnad fyd-eang.

Problemau a materion sy'n peri trafferth

Y broblem fwyaf yw pan roddir eitemau anghywir yn y cynhwysydd ailgylchu gan fod rhaid eu tynnu oddi yno â llaw. Mae hyn yn arafu'r broses ac os methir â thynnu'r eitemau hyn, gall flocio neu ddifrodi'r peiriannau ac offer arall. Dyma pam mae'n bwysig gwybod pa eitemau y gallwch ac nid allwch ei ailgylchu yn eich ardal leol.

Am wybodaeth bellach am y broses ailgylchu, ewch at:

www.recyclenow.com/recycling-knowledge/how-is-it-recycled/recycling-centre neu edrychwch ar y Lleolydd

Ailgylchu sy'n rhoi gwybodaeth am beth y gallwch ei ailgylchu'n lleol:

www.recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1

Beth sy'n digwydd i'n deunyddiau i'w ailgylchu?

Mae yna nifer o safleoedd ailgylchu yn y DU, yn ailbrosesu miliynau o dunelli o ddeunydd bob blwyddyn

- Mae'r holl bapurau newydd a gynhyrchir yma yn y DU bellach yn cael ei wneud 100% o bapur wedi'i ailgylchu
- Mae'r holl wastraff organig (gardd a chegin) a gasglwn yn cael ei ailgylchu yn y DU, a hynny'n agos i'r fan y cafodd ei gasglu gan amlaf
- Yn y DU, cesglir 80% o'r gwydr a ddefnyddiwn, a defnyddir y rhan fwyaf ohono i wneud poteli a jariau gwydr newydd

Cwestiynau cyffredin

Yw ein hailgylchu'n cael ei anfon i Tsieina?

Er ei bod yn wir fod nwyddau ailgylchadwy'n aml yn cael eu hanfon i Tsieina i'w hailgylchu, sy'n swnio fel peth niweidiol i'r amgylchedd, nid yw'n beth drwg mewn gwirionedd. Gan mai Tsieina yw'r cynhyrchwr mwyaf yn y byd, mae llongau nwyddau mawr yn dod i'r DU yn rheolaidd. Yn hytrach nag anfon y llongau anferth hyn yn wag ar eu siwrne o filoedd o filltiroedd yn ôl i Tsieina, mae'r gost yn cael ei wrthbwyso drwy eu llenwi â nwyddau ailgylchadwy. Felly, caiff eitemau dieisiau fel hen boteli plastig eu hailgylchu yn nwyddau newydd fel cotiau cnu, bwcedi a meinciau, sy'n cael eu gwerthu mewn marchnadoedd newydd!

Oes angen i mi olchi nwyddau'n drylwyr wrth eu hailgylchu?

Nid oes angen golchi nwyddau'n drylwyr ar gyfer eu hailgylchu. Gwnewch yn sicr eu bod yn wag, a rinsiwch nhw'n sydyn. Cyngor gorau: defnyddiwch ddŵr golchi llestri dros ben i'w rinsio.



Oes angen i mi dynnu caeadau poteli wrth ailgylchu?

Na, cadwch nhw ar y poteli! Gellir gadael y caeadau ar boteli plastig gyda chaeadau plastig – fel poteli dŵr, poteli llaeth, siampŵ a channydd. Gellir gwasgu poteli llaeth a photeli diod er mwyn arbed lle, ond rhowch y caead yn ôl arnyn nhw gan y gellir eu hailgylchu hefyd. Gwagiwch a rinsiwch boteli gwydr ac wedyn rhoi'r caead metel yn ôl arnyn nhw i'w ailgylchu gan fod hwn yn ddeunydd gwerthfawr y gall yr ailbrosewyr eu tynnu allan yn ystod y broses ailgylchu.

Beth am boteli cannydd a hylif glanhau?

Mae rhai pobl yn meddwl nad oes modd ailgylchu poteli cannydd a hylifau glanhau oherwydd eu cynnwys – ond mae'n haws nag y meddyliech chi i'w hailgylchu nhw'n ddiogel. Y cwbl sydd angen i chi ei wneud yw sicrhau fod y botel yn wag a gadael y caead arni. Mae'n bosibl eu trawsnewid yn bethau fel caniau dyfrio a chawgiau dŵr heb unrhyw risg o niwed yn ystod y broses ailgylchu.

Oes unrhyw werth mewn ailgylchu?

Mae rhai pobl yn meddwl nad yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth – ond nid yw hynny'n wir! Mae defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu yn defnyddio llawer llai o ynni na fyddai ei angen i gynhyrchu nwyddau newydd gyda deunyddiau crai gwerthfawr, hyd yn oed wrth gymharu'r holl gostau cysylltiedig, fel cludiant.

Ffynhonnell: www.ailgylchudrosgymru.org.uk

Ffeithiau ac ystadegau

Plastigion

- O'r 480 o boteli plastig a ddefnyddir gan gartref cyffredin bob blwyddyn, dim ond 270 sy'n cael eu hailgylchu. Mae hyn yn golygu fod 44% ohonynt yn cyrraedd y bin sbwriel o hyd
- Pe bai'r holl boteli plastig nad ydynt yn cael eu casglu ar gyfer ailgylchu yn y DU bob blwyddyn yn cael eu gosod ben wrth ben, bydden nhw'n ymestyn o amgylch y byd 31 gwaith
- Mae 25 potel ddiod blastig yn gwneud 1 top cnu
- Gellir defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu o blastigion fel tybiau menyn i wneud potiau paent plastig
- Mae hyd yn oed modd gwneud crysau pêl-droed allan o blastig wedi'i ailgylchu
- Pan fyddwch chi'n ailgylchu eich poteli siampŵ a gel cawod rydych chi'n rhoi'r cyfle iddyn nhw gael bywyd arall ... ac un arall. Fel potel blastig arall, efallai, neu hyd yn oed fel bwced!
- Mae ailgylchu un botel cannydd blastig yn arbed digon o ynni i wyllo 1 ½ gêm bêl-droed ar y teledu
- Mae ailgylchu 5 potel blastig yn ddigon i wneud masgot tegan meddal Busta

Bwyd

- Pe bai'r holl fananas a deflir mewn wythnos yn cael eu gosod ben wrth ben, bydden nhw'n ymestyn o Lundain i Athens
- Mae'r gwastraff bwyd a anfonir i safleoedd tirlenwi mewn blwyddyn yn creu mwy o nwy methan nag y gall ½ miliwn o wartheg mewn blwyddyn
- Mae cartref cyffredin yn llenwi 2 lond bin olwynion o wastraff bwyd bob blwyddyn. Pe bai hwn yn cael ei ailgylchu, gallai greu digon o ynni i ferwi tegell 700 gwaith
- Mae ailgylchu gwastraff bwyd yn creu ynni. Gallai ailgylchu cyn lleied â 35 o hen fagiau te gynhyrchu digon o drydan i bweru teledu am awr
- Cynhyrchir 7 miliwn tonnell o wastraff bwyd bob blwyddyn yn y DU, sy'n gyfatebol i bwysau 1.4 miliwn o eliffantod Affricanaidd
- Cynhyrchir 7 miliwn tonnell o wastraff bwyd bob blwyddyn yn y DU, sy'n gyfatebol i 20 biliwn pítsa wedi'i rewi NEU bron i un pítsa bob dydd i bawb yn y DU
- Cynhyrchir 135,000 tonnell o wastraff bwyd bob wythnos yn y DU. Pe bai'r cwbl yn cael ei ailgylchu, gallem gynhyrchu digon o ynni i bweru cynhyrchu ac adeiladu 7,500 car



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



- Gall llond cadi cegin o wastraff bwyd gynhyrchu digon o drydan i dostio 8 rownd o fara
- Gall llond cadi cegin o wastraff bwyd gynhyrchu digon o drydan i ferwi tegell 3 gwaith
- Gall llond cadi cegin o wastraff bwyd gynhyrchu digon o drydan i bweru bwlb golau am dros 24 awr

Nwyddau Trydanol

- Yn y DU bob blwyddyn, mae tua 1.4 miliwn tunnell o nwyddau trydanol yn cael eu prynu, ac mae tua'r un faint o wastraff trydanol yn cael ei greu. Dim ond tua hanner y gwastraff hwn sy'n cael ei ailgylchu. A dim ond ychydig iawn sy'n cael ei aildddefnyddio
- Ar gyfartaledd, mae pob person yn y DU yn prynu bron i dair eitem drydanol newydd bob blwyddyn – neu tua 170 miliwn yn genedlaethol
- Am bob 5.9kg o nwyddau trydanol bach a brynwyd yn 2012 (y cyfartaledd fesul person), dim ond ffraciwn o'r rhain (1.8kg) a anfonwyd i'w ailgylchu
- Nid oes angen rhoi'r eitemau hyn yn y bin – gallwch eu danfon i'ch canolfan ailgylchu leol. Defnyddiwch ein Lleolydd Ailgylchu defnyddiol i ddod o hyd i'r ganolfan ailgylchu agosaf i chi sy'n derbyn gwastraff trydanol: www.recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1
- Mae ailgylchu nwyddau trydanol yn helpu'r amgylchedd – gellir aildddefnyddio neu ailgylchu nwyddau trydanol ac electronig dieisiau, ac maen nhw'n cynnwys nwyddau crai gwerthfawr. Er enghraifft, mae un haearn smwddio yn cynnwys digon o ddr i greu 13 can dur
- Mae rhai manwerthwyr yn cynnig cynlluniau ailgylchu neu opsiynau dychwelyd ar gyfer hen nwyddau. Gofynnwch i'ch manwerthwr lleol am wybodaeth

Mae gwybodaeth bellach ar gael o: www.recyclenow.com/recycling-knowledge/how-is-it-recycled/electricals

Cerdyn a phapur

- Mae ailgylchu dim ond un bocs grawnfwyd yn arbed digon o ynni i wyllo'r ffilm Minions ar y teledu
- Mae'r papur a cherdyn na chafodd ei gasglu ar gyfer ailgylchu'r llynedd yn pwysu'r un fath â 2,000 o forfilod glas
- Mae ailgylchu dim ond un cylchgrawn papur gloyw yn arbed digon o ynni i ferwi tegell 9 gwaith



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Metel

- Y llynedd yn y DU, fe wnaethom ailgylchu tua 4.5 biliwn o ganiau alwminiwm – mae hynny'n ddigon i ymestyn o amgylch y byd dros 13 gwaith
- Mae ailgylchu dim ond un can o ddiaroglydd aer alwminiwm yn arbed digon o ynni i wneud 30 o ddarnau Lego
- Mae'r DU yn defnyddio dros ½ miliwn tonnell o becynnau metel mewn blwyddyn
- Mae'r DU yn defnyddio amcangyfrif o 174,000 tonnell o becynnau alwminiwm mewn blwyddyn
- Amcangyfrifir mai dim ond hanner y becynnau alwminiwm a ddefnyddir yn y DU sy'n cael ei ailgylchu
- Amcangyfrifir bod bron i ¾ y dur a ddefnyddir yn y DU yn cael ei ailgylchu
- Mae ailgylchu un can alwminiwm yn arbed digon o ynni i dostio 14 rownd o fara
- Mae ailgylchu un can alwminiwm yn arbed digon o ynni i ferwi tegell 5 gwaith

Gwydr

- Mae ailgylchu dim ond un jar gwydr saws coginio yn arbed digon o ynni i bweru iPad am 15 diwrnod
- Mae'r DU yn defnyddio bron i 2 filiwn o dunelli o becynnau gwydr mewn blwyddyn
- Amcangyfrifir bod ychydig dros 1 miliwn tonnell o wydr yn cael ei gasglu ar gyfer ailgylchu mewn blwyddyn
- Mae ailgylchu dwy jar gwydr saws coginio'n arbed digon o ynni i bobi lasagne yn y popty
- Pe bai pawb yn ailgylchu un jar jam yn rhagor, byddai'n arbed digon o ynni i redeg y peiriant golchi llestri ym mhob cartref

Cardfwrdd

- Pe bai pawb yn y DU yn ailgylchu un bocs past dannedd, byddai'n arbed digon o ynni i redeg oergell mewn dros 2,000 o gartrefi am flwyddyn



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales

